**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o GYNGOR SIR CEREDIGION**
**a gynhaliwyd o bell drwy fideo-gynadledda,**
**ddydd Llun, 27ain Medi, 2021**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gareth Davies, Ellen ap Gwynn, Bryan Davies, Gethin Davies, Odwyn Davies, Dafydd Edwards, Elizabeth Evans, Keith Evans, Hag Harris, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Dai Mason, Catrin Miles, Ray Quant MBE, Rowland Rees-Evans, John Roberts, Lynford Thomas, Wyn Thomas ac Ivor Williams

(2.00 - 2.50pm)

**Gweithdrefn**
Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Paul Hinge, bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd nad oedd y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr John Adams-Lewis, Ceredig Davies, Endaf Edwards, Rhodri Evans, Alun Lloyd Jones a Mark Strong am na allent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Alun Williams am na allai fod yn bresennol yn y cyfarfod am ei fod yn ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ymwneud â'r Cyngor.

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

**3 Materion Personol**

Dim

**4 EITEM EITHRIEDIG**

Nid yw'r adroddiad yn ymwneud ag eitem 5 ar yr agenda, sef Atodiad B, ar gael i'w gyhoeddi, gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraffau 12 a 13, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ddelio â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r Cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd a'r wasg wrth ystyried eitem 5 isod, ar y sail bod y cais yn cynnwys gwybodaeth bersonol na ddylai, ar y cyfan, gael ei datgelu i'r cyhoedd a'r wasg. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r gweddarlledu yn cael ei atal yn ystod eitem 5 isod.

**5 Swydd - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth**

Cafodd y Cyngor gyflwyniad ac ymateb i gwestiynau penodol gan yr ymgeiswyr, a oedd wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y swydd wag Swyddog

Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth. Darparwyd adborth hefyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Rhestr Fer a'r Prif Weithredwr.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cynnig y swydd i Mr G V Edwards.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cyflog a fyddai'n cael ei gynnig. Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cynnig y swydd ar yr ail bwynt cynyddrannol ar raddfa gyflog A1 y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, gan fod yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â'r rôl dros dro ar hyn o bryd ac eisoes wedi symud i ail bwynt cynyddrannol y raddfa gyflog.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** y dylid cynnig y swydd ar gyflog o £73,837, yr ail bwynt cynyddrannol ar raddfa gyflog A1 y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol.

Derbyniodd Mr G V Edwards y swydd, ar ôl cael ei chynnig, ar gyflog o £73,837, sydd ar ail bwynt cynyddrannol graddfa gyflog A1 y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, a hynny'n weithredol o 14 Rhagfyr 2021.

Yna gwahoddwyd y cyhoedd a'r wasg i ymuno â'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Mr G V Edwards wedi cael cynnig y swydd a'i fod wedi'i derbyn, gan ddechrau ar yr ail bwynt cynyddrannol ar raddfa gyflog A1 y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, i ddechrau ar 14 Rhagfyr 2021.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 21 Hydref 2021**

**CADEIRYDD:** ______________